**YMGYNGHORIAD AR DDARPARIAETH Y GWASANAETH COFRESTRU GENEDIGAETHAU, MARWOLAETHAU A PHRIODASAU YNG NGWYNEDD I'R DYFODOL RHAFYR 2012 – IONAWR 2013**

**CRYNODEB O YMATEBION**

| | |
|---|---|
| 1.Steve Roddick | Os yw'r Cyngor yn dymuno cau'r Swyddfeydd Cofrestru, yna dylent gynnig ymweliad cartref i'r person sy'n gofyn am wneud cofrestriad. Rwyf yn teimlo mai dyma'r lefel gwasanaeth y byddai'r boblogaeth yn gyffredinol yn ei gael yn dderbyniol. |
| 2. Matthew Tapping, Groeslon | Rwyf wedi defnyddio'r gwasanaeth sawl gwaith i gofrestru genedigaethau (Swyddfeydd Bangor a Chaernarfon).<br>Er fy mod yn byw ger Penygroes rwyf yn cwestiynu'r angen i gynnig gwasanaeth yno gan y gellid cofrestru wrth wneud taith i siopa yn y trefi.<br>Er bod achos da i gadw Caernarfon, dim ond taith 10 munud i ffwrdd yw Bangor a chan bod dalgylch ym Mhwllheli / Dolgellau, gellir cyfiawnhau un safle yng ngogledd Gwynedd gan mai dim ond yn achlysurol y defnyddir y gwasanaeth.Pe byddwn i yn gwneud hyn, byddwn yn cadw at dair safle. |
| 3. Norman Bond, Penrhyndeudraeth | Oni ellid gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith ar gyfer genedigaethau a marwolaethau ar-lein a hepgor yr angen i fod yn bresennol? |
| 4. Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams, Abermaw | Cefnogi'r cynigion. Angen arbed llawer o arian dros y blynyddoedd nesaf. Teimlo er bod y gwasanaeth yma yn un pwysig tydi o ddim yn un 'rheng flaen'. |
| 5. Clerc – Cyngor Tref Y Bala | Y Cyngor ddim eisiau colli'r gwasanaeth yma o'r dref. Gwasanaeth gwerthfawr i'r gymuned ac rydym yn synnu bod ystyriaeth yn cael ei roi i gael ond tri lleoliad yn unig yng Ngwynedd. Credu bod y Bala yn dref digon o faint i gadw gorsaf allanol ac mae eich ffigyrau yn ymddangos yn ganolraddol. A ellid ei gynnal mewn adeilad cyhoeddus (sy'n eiddo i'r Cyngor Sir) ac arbed costau fel nad ydych yn talu rhent/cymaint o rhent er enghraifft? A fyddech felly yn nodi nad yw'r Cyngor Tref am colli gwasanaethau yn y Bala. |
| 6. Y Cynghorydd Anne Lloyd-Jones, Tywyn | Defnyddiwyd y gwasanaeth yn Nhywyn gan dros 30 o bobl bob blwyddyn dros y tair mlynedd ddiwethaf. Er mai bychan yw'r rhifau, mae'n dal yn wasanaeth pwysig i'r rhai sy'n gorfod ei ddefnyddio. Mae nifer o bobl yn Nhywyn heb geir a byddai'n creu anhwylustod iddynt orfod teithio gyda bws i Ddolgellau yn enwedig rhiant fyddai heb y dewis ond i fynd â babi bychan gydag ef/ hi. Byddwn yn fodlon ail-leoli'r gwasanaeth o'r swyddfa bresennol i'r llyfrgell a fyddai'n arbediad ond yn erbyn peidio â chael gwasanaeth o gwbl yn y dref. |
| 7. Clerc – Cyngor Tref Porthmadog | Er mwyn lliniaru'r effaith ar y defnyddiwr teimlwyd yn gryf y dylid ystyried cadw un swyddfa o'r clwstwr (Porthmadog, Penrhyn, Blaenau, Criccieth a Thrawsfynydd) yn agored er mwyn cynnig gwasanaeth sy'n fwy canolog ac o fewn cyrraedd i ardal eang yn ddaearyddol; ardal sydd heb y system drafnidiaeth gyhoeddus fwyaf cyfleus i gyrraedd Bangor, Pwllheli na Dolgellau. Os rhoir eu ffigyrau at ei gilydd mae'n creu achos cryf i hyn.<br>Y Cyngor ddim o blaid cadw'r swyddfa yng Nghaernarfon ar agor gan fod Bangor,a hyd yn oed Pwllheli, o fewn cyrraedd hawdd efo trafnidiaeth gyhoeddus i'r ardal hon. Anodd cefnogi cadw 2 swyddfa o fewn tafliad carreg i'w gilydd ar draul cadw o leiaf un swyddfa yn yr ardal hon. Ai cyd-ddigwyddiad oedd y cynnig i gadw swyddfeydd yn agored yn y trefi ble mae prif swyddfeydd y Cyngor wedi eu lleoli yn barod? |
| 8. Clerc – Cyngor Tref Criccieth | Gan mai ychydig iawn o ddefnydd sy'n cael ei wneud o'r swyddfa rhan amser yn Criccieth nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau i'w cynnig. Byddai'n ddiddorol cael gwybod faint o arian fydd yr ail strwythuro yma yn ei arbed. |
| 9. Clerc – Cyngor Cymuned Trawsfynydd | Y Cyngor yn teimlo'n gryf y dylai'r gwasanaeth ym Meirionnydd gael ei gadw heb newid. Gwasanaeth hanfodol i drigolion yr ardal. Er mai ond am awr yn Nhrawsfynydd, mae'n wasanaeth amhrisiadwy i deuluoedd mewn galar neu o dan straen yn gofalu am fabi newydd. Trigolion yr ardal yn dioddef gyda'r dirwasgiad presennol; mae'r gwasanaeth yn bwysig gan fod taith bws yn gallu bod yn anodd. Eisiau'r gwasanaeth presennol gael ei gadw. |
| 10. David Church Tywyn | Gan fy mod yn gynrychiolwr wedi fy ethol, rwyf yn bryderus ynghylch unrhyw leihad pellach yn argaeledd gwasanaethau lleol mewn ardal wledig sydd â chyfran uchel o bobl wedi ymddeol sydd heb deulu agos. Mae tref Tywyn yn gallu cael ei hynysu gan eira a llifogydd. Byddai'n well gennyf pe bai'r gwasanaeth yn cael ei gadw a'i ymestyn yn hytrach na'i gau yn Nhywyn. Awgrymu annog y galw am dystysgrifau er mwyn cynyddu'r incwm. |

| | |
|---|---|
| 11. Clerc – Cygnor Tref Frenhinol Caernarfon | Y Cyngor yn pwyso i gadw'r Swyddfa Gofrestru yng Nghaernarfon ar agor; agor y swyddfa bob diwrnod ac ymestyn yr oriau agor. Cadw’r cofrestrai yn ddiogel yn un o’r swyddfeydd yng Nghaernarfon. |
| 12. Clerc – Cygnor Tref Tywyn | Mae’r Cyngor yn gwrthwynebu’r bwriad – gwasanaeth cyfyngedig ar gael yn y dref – dwy awr unwaith yr wythnos a dyma’r rheswm pam mae’r ffigyrau i’r rhai sy’n defnyddio’r gwasanaeth yn Nhywyn mor isel a chamarweiniol. Mae proffil y gwasanaeth mor isel yn Nhywyn fel nad yw pawb yn gwybod am ei fodolaeth. Mae’r defnydd a wneir o’r fath wasanaeth cyfyngedig yn dangos bod galw. Byddai canoli’r gwasanaeth yn anodd i rai pobl, e.e. rhiant sengl, rhieni sy’n gweithio a rhieni’n ddibynnol ar gludiant cyhoeddus a gallai arwain at galedi ariannol a gwaeth gwasanaeth. Ni fyddai’r bwriad yn fudd i gleientiaid dim ond i’r gwasanaeth. Yn cwestiynu gwerth yr ymgynghoriad; dyfodol y gorsafoedd allanol a’r cwestiwn olaf anuniongyrchol o’r 5 cwestiwn. Yr argraff bod penderfyniad wedi’i wneud i’w cau ac na ellir gwyrdroi’r penderfyniad. Mae’r Cyngor Tref yn gwrthwynebu’n gryf y bwriad i derfynu’r gwasanaeth yn Nhywyn ac mae’r Cyngor yn gofyn i Gyngor Gwynedd ailystyried a lleoli’r gwasanaeth yn y llyfrgell leol. |
| 13. Myfyr W Hughes. (Cadeirydd, Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd) | Hoffem weld Cofrestrau Hanesyddol yr hen Sir Gaernarfon yn cael eu lleoli yn Nghaernarfon a Chofrestrau Hanesyddol yr hen Sir Feirionnydd yn cael eu lleoli yn Nolgellau gan fod yr Archifdai yn y ddwy dref yma. Buasai hyn o gymorth i'r cannoedd o bobl erbyn hyn sydd yn ymchwilio i hanes eu teulu ac sydd hefyd yn dod a refeniw i'r gwasanaeth trwy brynu copïau o dystysgrifau. Hoffem hefyd weld mwy o gydweithio rhwng y Gwasanaeth Cofrestru a’r Archifdai. |
| 14 Clerc - Cyngor Cymuned Llanllyfni | Y Cyngor yn erbyn y bwriad o ddiddymu’r gwasanaeth ym Mhenygroes. Nid yw'r ystadegau a roddwyd yn dangos darlun clir o'r galw sydd am y gwasanaeth yma yn lleol i Ddyffryn Nantlle gan nad oes swyddogion cofrestru wedi bod ar gael i gyflawni dyletswyddau ym Mhenygroes ers y ddwy flynedd ddiwethaf. Er mwyn gwneud arbedion, fe all y swyddfa bresennol gael ei ail-leoli yn adeilad y llyfrgell yn y pentref - mae lle yno. Byddai hyn yn golygu y gall y Cyngor osod y swyddfa bresennol allan i rywun arall a derbyn incwm. A fyddai staff y llyfrgell yn gallu cael eu hyfforddi i gymryd manylion cofrestru genedigaethau a marwolaethau? Maent yn barod ar y safle, a byddai'n golygu NA fyddai'n rhaid i swyddogion deithio yn ôl ac ymlaen o Fangor. Oes modd i lyfrgellwyr gymryd yr awenau yn y pentrefi i gyd? |
| 15 Clerc - Cyngor Tref Ffestiniog | Mae’r Cyngor yn deall awydd i resymoli’r gwasanaeth ond yn credu’n gryf y dylid rhoi’r pwyslais ar sicrhau fod y gwasanaeth mor rhwydd â phosibl i’r rhai sy’n ei ddefnyddio. Mae yna bwysau mawr ar deuluoedd adeg genedigaethau, tra bod marwolaethau’n gallu bod yn amseroedd o galedi mawr.Blaenau Ffestiniog yw trydedd dref fwyaf poblog Gwynedd, ar ôl Bangor a Chaernarfon, ac mae gan Gwynedd adeilad addas dros ben ar gyfer cofrestru, sef y llyfrgell. Mae ganddo wasanaeth Rhyngrwyd ac felly mae’r addas ar gyfer polisi Gwynedd o ‘Dweud wrthym unwaith’.<br>Felly, mae Cyngor Tref Ffestiniog yn erfyn ar Gyngor Gwynedd i beidio â chymeradwyo cynlluniau i gau’r gwasanaeth cofrestru ym Mlaenau Ffestiniog, ond, yn hytrach, i gadw’r gwasanaeth ar agor er budd y gymuned leol. |
| 16 Pwyllgor Etholaeth Arfon Plaid Cymru | Mynegwyd pryder y bydd swyddfeydd cofrestru Llanberis, Deiniolen a Phenygroes yn cau oherwydd y toriadau. Awgrymwyd bod y Cyngor yn defnyddio llyfrgelloedd lleol ac yn hyfforddi’r staff i wneud y gwaith yma. |

<u>RHESTR DOSBARTHU Y DDOGFEN YNGYNGHOROL:</u>

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr Sir<br><br>Cynghorau Tref/Cymuned Ardal<br><br>Caernarfon — Llanllyfni<br>Llanddeiniolen — Llanberis<br>Porthmadog — Cricieth<br>Penrhyndeudraeth — Ffestiniog<br>Y Bala — Tywyn<br>Trawsfynydd — Harlech<br><br>Trefnwyr angladdau | Safle we Cyngor Gwynedd<br><br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>Ysbyty Gwynedd<br>Penrhosgarnedd<br>Bangor<br>Gwynedd<br>LL57 2PW<br><br>Eiddo hefo trwydded i gynnal seremoniau sifil |